**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 26 IONAWR 2023 DYDD IAU, 26 IONAWR 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
H. Cunningham
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
L. Winnett
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Tîm Cynlluniau Datblygu
Swyddog Polisi (Ymgysylltu a Chydraddoldeb)
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

GYDA: Chloe Lines – Maer Ieuenctid sy'n Gadael y Swydd
Chloe Simmonds, Dirprwy Faer Ieuenctid

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorwyr M. Cross, D. Davies, J. Holt, J. Wilkins a Mara Moruz, Maer Ieuenctid. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

<table>
<tr><td>No. 4</td><td>
<u>CHLOE LINES – MAER IEUENCTID SY'N GADAEL Y SWYDD</u><br><br>
Estynnodd yr Aelod Llywyddol groeso i'r cyfarfod i  Chloe Lines, y Maer Ieuenctid sy'n gadael y swydd.<br><br>
Wedyn rhoddodd Chloe drosolwg o'i taith ddemocrataidd hyd yma. Prif flaenoriaeth Chloe yn ystod ei chyfnod yn y swydd oedd codi ymwybyddiaeth o fwlio a dangoswyd ei ffilm ymgyrch i'r Cyngor. Nodwyd fod y ffilm ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor a chafodd ei rhannu gyda phob ysgol.<br><br>
Cafodd Chloe ei chanmol gan Aelodau am ei thaith wirioneddol ysbrydoledig ac ar gynhyrchu ffilm mor wych a grymus ac estynnwyd eu dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol.<br><br>
Cafodd y Maer Ieuenctid newydd, Mara Moruz a'r Dirprwy Faer Ieuenctid, Chloe Simmonds hefyd eu croesawu a'u llongyfarch ar eu hetholiad llwyddiannus a mynegwyd dymuniadau gorau ar gyfer eu blwyddyn yn y swydd.
</td><td></td></tr>
<tr><td>No. 5</td><td>
<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u><br><br>
<u>Llongyfarchiadau</u><br><br>
Mynegwyd llongyfarchiadau i:<br><br>
➢ Riley Powell sy'n 14 oed, disgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Gyfun Tredegar a fyddai'n chwarae yn erbyn detholyn rhif 8 y byd, Kyren Wilson yn y gêm Shoot Out Snooker a ddarlledir y diwrnod hwnnw.<br><br>
PENDERFYNWYD anfon llythyr i longyfarch Riley.<br><br>
<u>Cydymdeimlad</u><br><br>
➢ Mynegwyd cydymdeimlad â Steve Smith, Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau ar farwolaeth drist ei dad.<br><br>
➢ Cynhelir Diwrnod Rhyngwladol Cofio'r Holocost ar 27 Ionawr 2023 a fyddai'n cofio'r rhai a gollodd ac a roddodd eu bywydau yn ystod yr holocost.<br><br>
Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch.
</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **No. 6** | **LLYFR PENDERFYNIADAU HYDREF 2022 – IONAWR 2023**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Hydref 2022 – Ionawr 2023 i'w ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penderfyniadau a chawsant eu cadarnhau. | |
| **No. 7** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR SAFONAU**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 15** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU LLE**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR CRAFFU LLE**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **CYFARFOD CYFFREDIN Y CYNGOR – DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 21** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 22** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y rhoddir manylion yn y Cyfansoddiad ar y drefn ar gyfer cyflwyno cwestiynau cyhoeddus. Fodd bynnag, ar gyfer dibenion bod yn agored a thryloyw, byddid yn ymchwilio ffyrdd i roi sylw i'r wybodaeth mewn ffurf gliriach ar y wefan mewn cysylltiad gyda Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 23 | **<u>AMSERLEN DDIWYGIEDIG CYTUNDEB CYFLENWI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig a'r amserlen ar gyfer paratoi y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. | |
| No. 24 | **<u>PENODIAD PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro).<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo penodi Miss Jennifer White i'r Pwyllgor Safonau ac yn ychwanegol i gymeradwyo Ms Sarah Manuel fel ymgeisydd wrth gefn i lanw pe byddai lle yn dod yn wag. | |
| No. 25 | **<u>RHYDDID Y FWRDEISTREF</u>**<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud y soniwyd ac y nodwyd yn flaenorol mai 27 Ionawr yw Diwrnod Rhyngwladol Cofio'r Holocost sy'n nodi'r dyddiad y cafodd Auschwitz-Birkenau, un o'r gwersylloedd marwolaeth mwyaf, ei ryddhau.<br><br>Yn anffodus, mae cynnydd mewn troseddau casineb hiliol a dangosodd ystadegau'r Swyddfa Gartref y bu cynnydd amlwg o 19% yn y troseddau hyn rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2021 ac felly mae angen gweithredu i wrthweithio hyn.<br><br>Mae Eva Clarke, a oroesodd yr holocost, wedi ymroi a threulio llawer o'i bywyd yn lledaenu neges gobaith yn y tywyllwch ac amlinellu stori erchyll yr holocost i'r hen a'r ifanc. Mae Eva wedi ymweld â Blaenau Gwent nifer fawr o weithiau i gyflwyno'r neges hon i Aelodau, y cyhoedd a phlant. I gydnabod y gwaith gwych hwn ac anrhydeddu ymrwymiad ac ymroddiad Eva, cynigiodd yr Arweinydd ddyfarnu Rhyddid Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent iddi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth wneud hynny, dywedodd yr Arweinydd y byddai hyn yn anfon neges gan y Cyngor nad oes gan hiliaeth a gwahaniaethu hiliol unrhyw le yn y gymuned ac y byddid yn ymladd yn erbyn lle bynnag y byddai'n ymddangos.<br><br>I gloi, cofnododd Arweinydd y Cyngor ei werthfawrogiad i Dave Rees ac Unsain am eu help wrth roi sylw cyson i'r mater hwn ac am eu cefnogaeth barhaus mewn digwyddiadau.<br><br>Canmolodd Aelodau eraill y cynnig a'i eilio i ddyfarnu Rhyddid Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i Eva Clarke.<br><br>Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i Eva Clarke. | |
| **No. 26** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**Rhoddwyd ystyriaeth i:**<br><br>**<u>PANEL YMGYNGHOROL AR GYFER LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL</u>**<br><br>Gwnaeth y panel yr argymhellion dilynol ar 19 Ionawr 2023 i benodi mewn egwyddor:<br>- **Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm**– Helen Langley<br>- **Ysgol Gynradd Coed-y-Garn–** Cynghorydd Sonia Behr<br>- **Cymuned Ddysgu 3-18 Ebwy Fawr -–** Cynghorydd George Humphreys<br>- **Ysgol Gynradd Sant Illtyd –** Keri Jones<br>- **Ysgol Gynradd Sofrydd –** Keri Jones<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau dilynol.<br><br>**<u>CYNGHORAU IECHYD CYMUNED</u>**<br><br>Nodwyd dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020" y byddai Corff Llais y Dinesydd yn cymryd lle Cynghorau Iechyd Cymuned ac y cânt eu lansio ar 1 Ebrill 2023. Felly, byddai penodiadau Aelodau yn dod i ben pan gaiff y Cynghorau Iechyd Cymuned yn dod i ben, a rhagwelir y bydd hynny'n digwydd ar 1 Ebrill 2023 ac y cynigid cyfle i Aelodau i wirfoddoli ar gyfer y Corff Llais y Dinesydd (er na fyddent yn ffurfio rhan o gyfansoddiad Bwrdd Corff Llais y Dinesydd). | |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>FFORWM GWLEDIG CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU</u>**<br>- penodi Aelod ar y Fforwm uchod.<br><br>PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Chris Smith i gynrychioli'r Cyngor ar Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.<br><br>**<u>HYRWYDDWR LLESIANT</u>**<br><br>- penodi Hyrwyddwr Llesiant.<br><br>PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Jacqueline Thomas yn Hyrwyddwr Llesiant y Cyngor. | |